

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Nerys Taylor (Llansannan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei mam, Meirionwen Davies, ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Gweddïwn eu bod yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Meira Jones (Cefn Berain) dreuliodd noson yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos, ond mae'n dda cael adrodd ei bod hi a hefyd Glenys Jones (Llanefydd) bellach wedi cael dod adre. Cyflwynwn y ddwy yn ein gweddïau i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn parhau i gryfhau ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.
- Yn yr un modd, anfonwn ein cofion at ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Maldwyn Jones (Plas Eleri); Mr Selwyn Davies, Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Diolchwn am y gofal y maen nhw'n ei dderbyn a gobeithiwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

## Derbyn yn Aelodau

Dymunwn wybod faint o ieuencid 15+ sydd â diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes gennych diddordeb, cysylltwch ag Aneurin, Rhodri neu Mair cyn diwedd mis Chwefror, os gwelwch yn dda, er mwyn inni gael penderfynu pryd fyddai'r amser gorau i gynnal y sesiynau.

## I ddod

- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 20fed–22ain. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen i chi anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Chwefror 6ed**.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / [www.wordaliveevent.org](http://www.wordaliveevent.org)
- **LLANW** – Daeth yn amser i archebu lle yng ngŵyl Gristnogol Llanw sy'n gyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad. Fe'i cynhelir eleni yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed-10fed. Y siaradwr yn oedfaon y bore fydd Dr Rhodri Glyn, a bydd siaradwyr gwahanol yn arwain oedfaon yr hwyr. Mae taflenni gwybodaeth ar gael yn yr Ofalaeth – os nad oes rhai ar gael yn eich eglwys chi, gofynnwch i Mair am rai, os gwelwch yn dda, neu ewch i'r wefan: [www.llanw.org](http://www.llanw.org).



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1<sup>af</sup> Chwefror 2015 (BCND tud.221 / BCN: tud.202)

## Darlleniad y Dydd

Colosiaid 2:6-10

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

'Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist.' Dyna'r geiriau y mae'r Apostol Paul yn ei ddefnyddio i gyfarch cyd-Gristnogion wrth ddechrau llawer o'i lythyrau. Wrth i ninnau ddod at ein gilydd i foli Duw ar gychwyn y mis bach, boed i ni sylweddoli nad oes neb ohonom yn haeddu dim o law'r Arglwydd. Ond er hyn, trwy ras mae Duw yn rhoi cymaint yn fwy na'n haeddiant i ni yn ei Fab, Iesu Grist. Diolchwn am Iesu heddiw, a gofynnwn i'r Ysbryd Glân ddyfnhau'r heddwch mewnol sy'n eiddo i'r Cristion wrth iddo ddod i adnabod Crist yn well a phrofi ei gariad yn bersonol.

Cwyn gyffredin y dyddiau hyn yw bod nifer o fwydydd poblogaidd fel petaent yn lleihau yn eu maint. Boed hynny'n bacedi creision, poteli pop neu duniau o siocledi, mae'n debyg mai cynllun llawer o wneuthurwyr i barhau i wneud elw yw cadw prisiau tua'r un fath ond lleihau maint eu cynnyrch rhyw fymryn. Tybed faint ohonoch sydd wedi prynu paced o greision a chael eich siomi o'i agor a gweld cyn lleied sydd ynddo?!

Yn ein darlleniad allan o'r Epistol at y Colosiaid, derbyniwn rybudd i fod yn ofalus nad ydym yn cael ein hudo gan syniadau hudolus y byd o'n cwmpas. Mae Cristnogion yn cael eu hannog i aros yn glos at Iesu gan sylweddoli mai Ef yw'r unig ateb i'n hanghenion. Dylai dilynwyr Crist adeiladu eu bywyd a gwneud eu penderfyniadau o'i herwydd Ef, ac nid trwy ddilyn esiampl ddynol yn ddifeddwl. Yn aml, bydd syniadau diweddaraf y byd yn ein perswadio y dylem ganolbwyntio ar hyn neu'r llall i gael bywyd llawn boddhad, ond cofiwn mai addewidion gwag ydynt mewn gwirionedd – byddant yn ein caethiwo yn hytrach na'n rhyddhau. Fel y siom o weld paced hanner gwag o greision, cael ein siomi wnawn ni yn y pen draw gyda phob math o syniadaeth neu ffordd o fyw sydd ddim wedi'i gwreiddio yng Nghrist. Pam hynny? Oherwydd mai Iesu'n unig sy'n ddyn ond hefyd yn Dduw – ac oherwydd hynny, Ef yn unig all ein cymodi ni â Duw trwy ei farw unwaith am byth ar y Groes dros yr anghyfiawn. (1 Pedr 3:18)

Mae Paul yn ei Lythyr yn ein hatgoffa o'r canlyniad difrifol o golli bywyd cyflawn trwy droi cefn ar Iesu. Ac os yw Iesu wedi dod i'r byd yn benodol er mwyn i bobl gael bywyd ar ei orau (Ioan 10:10 Beibl.net) pam ydym ni'n mentro trwy droi'n golygon at bethau isradd?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

## Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Pedr 1:22-25 (BCND tud.256 / BCN: tud.235)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 1<sup>af</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 4<sup>ydd</sup>
- **Adnabod yr Angen** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Iau – 5<sup>ed</sup>
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 6<sup>ed</sup>
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Gwener – Sul  
6<sup>ed</sup> – 8<sup>fed</sup>
- **Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled (8–12 oed)** yng Ngholeg y Bala. (Bydd Rhodri yn medru cludo rhai o griw Llansannan – cysylltwch ag ef i drefnu.)
- Sadwrn – 7<sup>fed</sup>
- **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd am 10.30.)
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup>
- **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig ac edrychwn ymlaen i gael croesawu'r Parch. Hywel Meredydd i sgwrsio am y gwaith y mae Tearfund wedi bod yn ei gyflawni yn ddiweddar ac i ystyried sut allwn, fel gofalaeth, gydweithio ymhellach.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 1<sup>af</sup>
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mercher – 4<sup>ydd</sup>
- Bydd Cymdeithas Llanfair yn cael noson "Ffotograffiaeth" yng nghwmni Ceri Llwyd yn Neuadd Elwy am 7.30.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup>
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00. Yn yr un modd, bydd Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac Ysgol Sul am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma – 1<sup>af</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau – 5<sup>ed</sup>
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup>
- Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 1<sup>af</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup>
- Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 1<sup>af</sup>
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup>
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 1<sup>af</sup>
- Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup>
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 1<sup>af</sup>
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Llun – 2<sup>il</sup>
- Cynhelir Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Cefn Berain am 2.00 pryd y ceir 'Hawl i Holi' yng nghwmni Dyfyr Tudor, Heulwen Edwards a Mair Williams.
- Iau – 5<sup>ed</sup>
- Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso i bawb!
- Sul nesaf – 8<sup>fed</sup>
- Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.